**New Study to Transform Communication and Decision Making Around HRT in Wales**

Cardiff University is launching a new research project on **1 April 2026,** funded by Health and Care Research Wales**,** aimed at improving how women and healthcare professionals communicate and make decisions about the duration of Hormone Replacement Therapy (HRT). The **CANDOUR Study** — *Communication ANd Decisionmaking arOund DURation of Hormone Replacement Therapy* — will address significant gaps in evidence, practice and resources relating to when and how women continue or discontinue HRT.

National guidelines say that decisions about how long to continue HRT should be tailored to each woman and made together with her clinician. But listening to the experiences that women describe, particularly when they have been on HRT for several years or are entering their 60s suggests that many women are not receiving personalised discussions, and clinicians often feel unsure about how best to guide these conversations. The CANDOUR Study will develop clear, evidence-based ways to improve communication and support better decision-making in this important area of women's health.

**Study Leadership and Partner Organisations**

The study is **co-led by:**

- **Dr Kathryn Hughes**, Senior Clinical Lecturer, Division of Population Medicine, Cardiff University
- **Dr Susan Channon**, Senior Research Fellow, Centre for Trials Research, Cardiff University

The project brings together expertise from several research centres with funding from Health and Care Research Wales in Cardiff University, including Wales Centre for Primary and Emergency Care Research (PRIME) , Women's Health Research Wales (WHRW) and Centre for Trials Research (CTR), alongside colleagues from the School of Pharmacy and Pharmaceutical Sciences and in collaboration with the Health and Care Research Wales Evidence Centre.

Strong public involvement will be central to CANDOUR. The study partners with Fair Treatment for the Women of Wales (FTWW), a national advocacy organisation that brings crucial lived experience and policy expertise and two public research partners. The public involvement partners will coproduce study materials, support recruitment, and help shape the decision support tools developed.

**What the Study Will Do**

Over the next 17 months, the CANDOUR team will bring together existing evidence, Welsh prescribing data, and the real world experiences of women and clinicians to understand what better HRT conversations should look like. Using these insights, they will codesign a prototype decision support tool for primary care and set out a plan to share and implement the findings across Wales, with potential benefits for the wider UK.

**Why It Matters**

Many women in Wales will consider or use HRT. Decisions about continuing or stopping HRT can be complicated by symptoms, health risks, anxiety about stopping treatment, and wide variation in clinical practice. This study aims to ensure consultations reflect women's priorities, reduce inequities, and give healthcare professionals the evidence and tools they need to confidently support shared decision making.

Outputs from the project will inform education, policy and service development across Wales, with the potential to shape future NHS resources including Women's Health Hubs and national clinical pathways.

https://healthandcareresearchwales.org/about/news/major-boost-womens-health-research-awards

**Astudiaeth newydd i drawsnewid prosesau cyfathrebu a gwneud penderfyniadau o ran therapi amnewid hormonau yng Nghymru**

Bydd Prifysgol Caerdydd yn lansio prosiect ymchwil newydd ar **1 Ebrill 2026**, wedi'i ariannu gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, gyda'r nod o wella sut mae menywod a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn cyfathrebu ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch hyd therapi amnewid hormonau (HRT: hormone replacement therapy). Bydd Astudiaeth CANDOUR – Cyfathrebu a Gwneud Penderfyniadau o ran Hyd Therapi Amnewid Hormonau – yn mynd i'r afael â bylchau sylweddol yn y dystiolaeth, yr ymarfer a'r adnoddau sy'n ymwneud â phryd a sut mae menywod yn parhau neu'n rhoi'r gorau i HRT.

Mae canllawiau cenedlaethol yn dweud y dylid teilwra penderfyniadau ynghylch pa mor hir i barhau â HRT i bob menyw, a'u gwneud ar y cyd â'r clinigwr. Ond wrth wrando ar y profiadau mae menywod yn eu disgrifio, yn enwedig pan fyddan nhw wedi bod ar HRT ers sawl blwyddyn neu'n cyrraedd eu 60au cynnar, yr awgrym yw nad yw llawer o fenywod yn cael trafodaethau personol, a bod clinigwyr yn aml yn teimlo'n ansicr ynglŷn â'r ffordd orau o lywio'r sgyrsiau hyn. Bydd Astudiaeth CANDOUR yn datblygu ffyrdd clir, seiliedig ar dystiolaeth, o wella'r cyfathrebu a chefnogi penderfyniadau gwell yn y maes pwysig hwn sy'n ymwneud â iechyd menywod.

**Arweinydd yr Astudiaeth a Sefydliadau Partner**

Mae'r astudiaeth yn cael arwain ar y cyd gan:

- **Dr Kathryn Hughes**, Uwch Ddarlithydd Clinigol, Is-adran Meddygaeth Boblogaeth, Prifysgol Caerdydd
- **Dr Susan Channon**, Uwch Gymrawd Ymchwil, Canolfan Treialon Ymchwil, Prifysgol Caerdydd.

Mae'r prosiect yn dwyn ynghyd arbenigedd o sawl canolfan ymchwil gyda chyllid gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd, gan gynnwys Canolfan Ymchwil i Ofal Sylfaenol a Brys Cymru (PRIME), Ymchwil Iechyd Menywod Cymru (WHRW) a'r Ganolfan Treialon Ymchwil (CTR), ochr yn ochr â chydweithwyr o'r Ysgol Fferylliaeth a'r Gwyddorau Fferyllol ac mewn cydweithrediad â Chanolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.

Bydd cyfranogiad cryf gan y cyhoedd yn ganolog i CANDOUR. Yn bartner yn yr astudiaeth bydd Fair Treatment for the Women of Wales (FTWW), sefydliad eiriolaeth cenedlaethol sy'n dod â phrofiad bywyd, arbenigedd polisi a dau bartner ymchwil cyhoeddus ynghyd. Bydd partneriaid cyfranogiad y cyhoedd yn cyd-gynhyrchu deunyddiau astudio, yn cefnogi prosesau recriwtio, ac yn helpu i lunio'r adnodd cefnogi penderfyniadau fydd yn cael ei ddatblygu.

**Beth fydd yr astudiaeth yn ei wneud**

Dros yr 17 mis nesaf, bydd tîm CANDOUR yn dwyn ynghyd y dystiolaeth bresennol, data presgripsiwn yng Nghymru, a phrofiadau go iawn menywod a chlinigwyr i ddeall sut beth fyddai sgyrsiau gwell am HRT. Gan ddefnyddio'r wybodaeth hon, byddan nhw'n cyd-ddylunio prototeip o adnodd cefnogi penderfyniadau ar gyfer gofal sylfaenol ac yn gosod cynllun i rannu a gweithredu'r canfyddiadau ledled Cymru, gyda manteision posibl i'r DU yn ehangach.

**Pam mae'n bwysig**

Bydd llawer o fenywod yng Nghymru yn ystyried neu'n defnyddio HRT. Gall penderfyniadau ynglŷn â pharhau neu stopio HRT fod yn gymhleth oherwydd symptomau, risgiau iechyd, pryder ynghylch stopio triniaeth, ac amrywiadau eang o ran ymarfer clinigol. Nod yr astudiaeth hon yw sicrhau bod ymgynghoriadau yn cyd-fynd â blaenoriaethau menywod, yn lleihau anghydraddoldebau, ac yn rhoi'r dystiolaeth a'r adnoddau sydd eu hangen ar weithwyr gofal iechyd proffesiynol i gefnogi penderfyniadau a wneir ar y cyd yn hyderus.

Bydd allbynnau o'r prosiect yn llywio addysg, polisi a datblygu gwasanaethau ledled Cymru, gyda'r potensial i lunio adnoddau'r GIG yn y dyfodol, gan gynnwys Canolfannau Iechyd Menywod a llwybrau clinigol cenedlaethol.

https://healthandcareresearchwales.org/about/news/major-boost-womens-health-research-awards